

CYLCHLYTHYR *Rhieni*

Helpu rhieni a disgyblion yng Nghasnewydd â nam ar y golwg, nam ar y clyw ac anghenion cyfathrebu a synhwyrdd.

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Diben y cylchlythyr hwn yw rhoi'r newyddion diweddaraf i chi ar y gwaith o lunio a pharatoi ein gwasanaeth lleol yng Nghasnewydd a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019. Mae'r cylchlythyr hwn yn dilyn ein llythyr blaenorol a anfonwyd atoch ym mis Hydref 2018. Rydym yn gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn ddefnyddiol i chi ac y bydd yn rhoi hyder i chi y bydd Casnewydd yn dal i gynnig gwasanaeth i ddisgyblion â nam ar y clyw, nam ar y golwg ac anghenion cyfathrebu a synhwyrdd. Caiff rhagor o gylchlythyrau eu cyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd.

Gwasanaeth Addysg Casnewydd Hanes o lwyddiant:

Mae gan Gyngor Addysg Casnewydd enw da am fwrw ati a chynnig gwasanaethau ardderchog. Mae Casnewydd wedi cael adroddiadau da gan Estyn ac mae'n cael ei barchu gan weithwyr proffesiynol yn y maes addysg a chan weithwyr proffesiynol a phartneriaid cysylltiedig.

Mae gan Gasnewydd:

- Brofiad helaeth o arwain a rheoli timau arbenigol a thimau allgymorth
- Ethos cynhwysiant cadarn ac yn flaenorol mae wedi dod â thimau ynghyd yn llwyddiannus i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn a chynnig gofal, cyngor a chymorth parhaus i'r holl blant a'u teuluoedd.
- Tîm Cynhwysiant amlddisgyblaeth sy'n cynnwys Seicolegwyr Addysg, tîm Anghenion Addysgol Arbennig, Ymgynghorydd Addysgol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY, Gwybyddiaeth a Dysgu), Ymgynghorydd Addysgol ar gyfer

Ymddygiad ac Awtistiaeth ac Athro Ymgynghorol ar gyfer ADY. Rheolir y tîm gan Bennaeth Cynhwysiant. Bydd ein gwasanaeth newydd yn gweithio law yn llaw gyda'r gweithwyr proffesiynol i helpu eich plant chi.

- Deuddeg o Ganolfannau Adnoddau Dysgu (CADau) ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd, dwy ysgol arbennig a Chanolfan Benodol ar gyfer Nam sy'n Ymwneud ag Iaith ar gyfer yr ardal. Fel awdurdod lleol rydym hefyd yn ariannu lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion sy'n ymwneud â'r clyw, y golwg ac anghenion cyfathrebu a synhwyrdd mewn ysgolion y tu allan i Gasnewydd. Mae llawer o blant a phobl ifanc yn mynd i Ysgol Gynradd Nant Celyn ac Ysgol Uwchradd Cwmbân yn ein hawdurdod lleol cyfagos. Mae gan yr awdurdod hwn ganolfannau adnoddau i helpu plant a phobl ifanc â Nam ar y Clyw.

Gwasanaeth Addysg Canolog sy'n adnabod ei ysgolion yn dda. Mae ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ardderchog. Mae ein Penaethiaid yn gweithio gyda ni i lunio gwasanaethau a fydd yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion.

- Ei Dîm Blynyddoedd Cynnar ei hun sy'n helpu ac yn hyfforddi lleoliadau meithrin a gynhelir a'r rhai nas cynhelir i helpu disgyblion gydag anghenion cymhleth. Mae'r tîm hwn hefyd yn cynnwys Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar sy'n arbenigwr yn y maes ADY yn y Blynyddoedd Cynnar.
- Seicolegydd Addysg sy'n helpu ac yn cynnig cyngor ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cyn oedran ysgol.
- Cyswllt rheolaidd ac effeithiol gyda'r holl Gydlynwyr ADY sy'n gweithio mewn ysgolion (arweinwyr mewn ysgolion sy'n gyfrifol am Gydlynwyr

ADY / Anghenion Addysgol Ychwanegol), gan gynnwys cyfarfodydd Clwstwr rheolaidd ar gyfer Cydlynwyr ADY. Cynigir rhaglen hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, athrawon a chynorthwyrwyr dysgu i ddiwallu anghenion ysgolion a'u disgyblion.

- Rhwydwaith o gymorth ardderchog gan gydweithwyr iechyd a'r sector gwirfoddol. Bydd yartneriaid pwysig hyn yn parhau i'n helpu a'n cyngori wrth i'n tîm lleol dyfu.

Strwythur Staff y Dyfodol:

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi bod yn trafod trefniadau TUPE gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae hyn yn golygu y bydd staff a gyflogir gan y Rhwydwaith Cymorth Cyfathrebu a Synhwyrdd sy'n gweithio am fwy na 50% o'u hamser yng Nghasnewydd yn gymwys i gael eu trosglwyddo i Gyngor Dinas Casnewydd.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn hysbysebu amrywiaeth o rolau i gefnogi ein gwasanaeth newydd yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd unrhyw staff a gyflogir gan y Rhwydwaith ar hyn o bryd yn cael cyfweiliad awtomataidd ar gyfer swydd sy'n cyd-fynd yn union â'u disgrifiad swydd.

Y bwriad yw llenwi'r holl swyddi ar gyfer ein tîm newydd erbyn diwedd mis Ionawr 2019. Bydd recriwtio ar gam cynnar yn ein galluogi i gael rhywfaint o amser i gynllunio'r gwaith o drosglwyddo'r staff a fydd yn dechrau ar eu swydd newydd yng Nghasnewydd. Byddwn hefyd yn dod â staff i weithdai i rieni er mwyn iddyn nhw gwrdd â chi a thrafod y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Bydd y tîm newydd yn gweithio yng Nghanolfan Ddinesig Casnewydd ochr yn ochr â'n swyddogion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Seicolegwyr Addysg ac Athrawon Ymgynghorol ADY er mwyn cynnig gwasanaeth di-dor.



Bydd ein tîm newydd hefyd yn cynnwys:

- Dau Athro Ymgynghorol a fydd yn meddu ar gymhwyster addysg arbenigol i weithio gyda disgyblion byddar neu ddisgyblion â nam ar y golwg. Bydd y rhain yn asesu anghenion disgyblion ac yn awgrymu cymorth priodol ar eu cyfer. Byddant hefyd yn addysgu sgiliau penodol i'r disgyblion ac yn hyfforddi staff ysgolion i gynnig cymorth parhaus.
- Athro Ymgynghorol ar gyfer Cyfathrebu a fydd yn helpu ac yn cynghori ysgolion mewn perthynas ag ymyriadau ar gyfer disgyblion ag anghenion lleferydd a chyfathrebu ac yn rhoi hyfforddiant a chynghor i ysgolion a theuluoedd.
- Dau Gynorthwy-ydd Addysgu arbenigol a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau disgyblion a monitro ac adolygu eu cynnydd.
- Swyddog Galluogi i helpu yn y gymuned ac yn yr ysgol.
- Technegydd Clywedegol i sicrhau bod unrhyw dechnoleg ac offer ar gael ac mewn cyflwr da.



Cefnogi amrywiaeth o anghenion:

Yn unol ag unrhyw wasanaeth, mae'n bwysig sicrhau mai'r disgyblion â'r anghenion mwyaf sy'n cael y cymorth mwyaf. Byddwn yn parhau i gymhwyso'r egwyddor hon. Ym mis Ionawr byddwn yn sefydlu pwyllgor llywio amlasiantaethol i ystyried sut y caiff y gwasanaeth ei weithredu o ddydd i ddydd. Bydd y grŵp dan sylw yn cynnwys Penaethiaid a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n defnyddio gwasanaeth y Rhwydwaith Cymorth Cyfathrebu a Synhwyraidd ar hyn o bryd ac sy'n deall anghenion eu disgyblion. Bydd cynrychiolwyr o blith rhieni ar y grŵp yn ogystal. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn bwrw ati yng Nghasnewydd i roi dull cydweithredol ar waith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â'n damcaniaeth gynhwysol hir sefydlog. Er mwyn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth adolygedig, rydym wedi bod yn edrych ar fodolau llwyddiannus sy'n



gweithredu ar sail awdurdod lleol unigol. Mae hyn wedi ein helpu i lywio ein gwaith cyllunio.

Cymorth Cyn Oedran Ysgol:

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y byddwn yn cynnig cymorth ar gam cynnar yn eu bywydau i ddisgyblion. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod profiadau a chymorth cadarnhaol ar gael o hyd i deuluoedd yng Nghasnewydd. Rydym yn sicrhau y bydd hyn yn datblygu dros amser a'r nod yw sicrhau ein bod yn cynnig mynediad i'r rhieni a gofawyr hynny nad yw'n bosibl iddynt fynychu grwpiau y tu allan i Gasnewydd. Mae gennym sawl grŵp cymorth llwyddiannus dros ben eisoes ar gael i rieni plant gydag amrywiaeth o anghenion arbennig ac rydym yn rhagweld y caiff grŵp penodol ar gyfer rhieni a gofawyr plant a phobl ifanc gydag anghenion synhwyrdd ei gynnig yn yr un modd.



Cwestiynau:

Fel y gwyddoch, mae dyddiadau wedi'u hysbysebu ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer sesiynau holi ac ateb ar gyfer rhieni Casnewydd. Caiff y sesiynau eu cynnal rhwng 2.00pm a 4.00pm ar Ddydd Mawrth 19 Chwefror a 5.00pm a 7.00pm ar Ddydd Mercher 20 Chwefror 2019 yn y Ganolfan Ddinesig. Os hoffech ddod i unrhyw un o'r sesiynau defnyddiwch y cyfeiriad e-bost isod neu ffoniwch Ganolfan Gyswilt y Ddinas 01633 656656

Inclusionadmin.support@newport.gov.uk

Os oes unrhyw gwestiynau eraill gennych defnyddiwch y cyfeiriad e-bost isod gan nodi eich rhif ffôn os ydych am i rywun gysylltu â chi'n bersonol

Mae'r penderfyniad i dynnu'n ôl o'r Rhwydwaith Cymorth Cyfathrebu a Synhwyrdd a sefydlu gwasanaeth arall yng Nghasnewydd wedi'i nodi fel rhan o gynigion cyllideb Casnewydd ar gyfer 2019/20 y gellir eu gweld yn; www.newport.gov.uk/budget

Gellir anfon sylwadau i: changing.services@newport.gov.uk